Eco-Tots Cymru

# Paentio gyda Natur



## Amcanion dysgu:

Bydd plant yn defnyddio eitemau naturiol i wneud marciau a phatrymau.

Bydd plant yn dysgu y gallwn ailddefnyddio deunyddiau naturiol ar gyfer celf.

Bydd plant yn archwilio lliwiau, gweadau.

cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

The Moondance Foundation

Arbed ac Ailddefnyddio

## Gwybodaeth Ymarferydd

Mae llawer o baent safonol yn cael ei wneud gyda lliwiau synthetig, glynwyr wedi eu gwneud o blastig, cadwolion ac ychwanegion eraill.

Gall rhai mathau o baent confensiynol ryddhau cyfansoddion organig tanllyd hefyd, a elwir yn VOCs, a allai effeithio ar ansawdd aer y tu mewn tra bod y paent yn sychu ac ar ôl ei ddefnyddio.

Mae dewis adnoddau mwy naturiol ac wedi eu hailddefnyddio yn helpu plant i weld nad oes angen i gelf bob amser ddod o ddeunyddiau newydd o'r siop.

Mae paentio gyda natur yn annog plant i sylwi ar liw, gwead a phatrwm yn y byd o'u hamgylch tra'n dibynnu llai ar eitemau crefft untro.

Trwy ddefnyddio dail sydd wedi cwympo, brigau, petalau, pridd a deunyddiau naturiol, diogel eraill, gallwch gefnogi creadigrwydd, archwilio synhwyraidd a chyfrifoldeb amgylcheddol mewn ffordd ymarferol, syml.

Mae paent naturiol yn hyfryd ar gyfer archwilio synhwyraidd ond efallai na fydd mor llachar neu hiroesog â phaent siop.

Gall rhai cynhwysion, yn arbennig tyrmerig, betys, a aeron, liwio'r dwylo, dillad neu arwynebau, felly defnyddiwch orchuddion y gellir eu sychu a lle yn yr awyr agored lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwiriwch alergeddau a goruchwyliwch yn ofalus, yn arbennig gyda phlant sydd yn dal i archwilio deunyddiau gyda'u cegau.



## Sut i wneud eich paent naturiol eich hun

- Casglwch gynhwysion lliw naturiol diogel fel betys, tyrmerig, sbigoglys, aeron, pridd neu betalau. Ceisiwch osgoi unrhyw beth anhysbys, gwenwynig, pigog neu sy'n debygol o lidio'r croen.
- Paratowch y lliw trwy dorri, gwasgu, gratio neu stwnsho'r cynhwysyn mewn powlen.
- Ychwanegwch ychydig o ddŵr cynnes a throi neu stwnsho nes bod y lliw yn dechrau dod allan. Defnyddiwch lai o ddŵr ar gyfer lliw cryfach a mwy o ddŵr ar gyfer lliw goleuach.
- Rhowch y gymysgedd trwy ridyll, mwslin neu hidlwr coffi aml-dro i gael gwared ar y darnau mawr. Cadwch yr hylif lliw mewn powlen fach neu jar wedi'i hailddefnyddio.
- I dewhau'r paent, cymysgwch ychydig bach o flawd, blawd corn neu bowdr saethwraidd i mewn nes ei fod yn teimlo fel paent. Ychwanegwch y tewychwr yn araf er mwyn i'r plant allu gweld sut mae'r gwead yn newid.
- Profwch y paent ar bapur sgrap, cardfwrdd neu ddeunydd pecynnu wedi ei ailddefnyddio. Addaswch drwy ychwanegu mwy o liw naturiol, mwy o ddŵr neu fwy o dewychwr fel bo angen.
- Defnyddiwch y paent yn syth gyda brwshys, bysedd, dail, brigau, plu neu offer creu marciau naturiol eraill.



Eco-Tots Cymru

## Cynhwysion naturiol ar gyfer lliwiau gwahanol

| | |
|---|---|
| **Pinc neu goch** | sudd betys, mafon, mefus, petalau rhosod neu ddŵr bresych coch gydag ychydig o sudd lemwn. |
| **Melyn** | Powdr tyrmerig, dant y llew, petalau melyn Mair neu groen winwns |
| **Oren** | Paprica, sudd moron, croen oren neu gymysgedd o fetys a thyrmerig. |
| **Gwyrdd** | Sbigoglys, glaswellt, dail mintys, neu bersli |
| **Porffor** | Llus, mwyar duon neu fresych coch. |
| **Glas** | Dŵr bresych coch wedi ei gymysgu gyda phinsied o soda pobi, neu lus wedi eu malu am liw porffor-glas meddalach. |
| **Brown** | Bridd, mwd, gwaddodion coffi, powdr coco, sinamon neu ddail yr hydref wedi eu malu. |

cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

The Moondance Foundation

Arbed ac Ailddefnyddio